

**A hoffech gael gwybod mwy am Asiantaeth yr Amgylchedd neu am eich amgylchedd?**

**Yna ffoniwch ni ar**

**08708 506 506\*** (Llun-Gwener 8-6)

**e-bost**

**enquiries@environment-agency.gov.uk**

**ymwelwch â'n gwefan**

**www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk**

**llinell argyfwng 0800 80 70 60** (24awr)

**llinell llifogydd 0845 988 1188**

\* Amacangyfrif o gost galwadau: 8c a 6c y funud (llinell tir safonol).  
Nodwch y bydd prisiau gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ffôn yn amrywio.



Yr amgylchedd yn gyntaf: Argreffir yr adroddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.



# rheoli planhigion anfrodorol ymledol



Rheoli planhigion anfrodorol ymledol mewn neu ger dŵr croyw

Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd chi, a'i wneud yn **lle gwell** – i chi, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch, a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a chymdeithas yn gyfan, rydym yn gwneud eich amgylchedd yn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amgylchedd. Allan yn y maes, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd  
Rio House  
Waterside Drive, Aztec West  
Almondsbury, Bryste BS32 4UD  
Ffôn: 0870 8506506  
E-bost: [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)  
[www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk](http://www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk)

© Asiantaeth yr Amgylchedd

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd o flaen llaw.  
Ebrill 2010

Rhagair



**Mae pobl sy'n byw yn ac yn ymweld â Chymru a Lloegr yn gallu mwynhau a chael budd o ystod eang o blanhigion brodorol. Ond weithiau caiff yr amrywioldeb naturiol ei fygwth gan gyflwyniad ac ymlediad rhywogaethau anffroddorol ymledol.**

Er mai dim ond canran fach o blanhigion anffroddorol a gyflwynwyd yng Nghymru a Lloegr sy'n cynrychioli problem, pan fyddant yn ymsefydlu yn y gwyllt, gallai mathau penodol gael effaith drawiadol. Mae gwaredu gwastraff gerddi'n esgeulus, trwy ei dipio dros ffensys, gwrychoedd ac i mewn i encilfeydd, ffosydd, nentydd a phyllau, yn cynyddu'r tebygrwydd o'r planhigion hyn yn ymledu i mewn i gefn gwlad. Gall hyn arwain at ganlyniadau hirdymor ar gyfer bioamrywiaeth frodorol.

Gall rhywogaethau anffroddorol ymledol wneud niwed i'r amgylchedd mewn ffyrdd gwahanol. Tra bod y ffromlys chwarennog a briallu'r dŵr yn lliwgar ac yn ddeniadol, yn aml byddant yn dyfod mor doreithiog fel eu bod yn disodli planhigion brodorol. Gall matiau trwchus o geiniog y gors neu ddeilen parot dagu cyrsiau dŵr gan arwain at fwy o berygl llifogydd, llai o gyfleoedd pysgota a phroblemau wrth fordwyo.

Mae nifer o rywogaethau anffroddorol eisoes wedi ymsefydlu'n dda ac maent yn debygol o ymledu ymhellach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Gallai eraill, nad ydynt yn broblem ar hyn o bryd, ddyfod yn ymledol wrth i godiadau mewn tymheredd greu cyflyrau tyfu gwell ar eu cyfer. Mae'r Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anffroddorol Ymledol ar gyfer Prydain Fawr a lansiwyd ym Mai 2008 gan Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig, wedi ysgogi sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat, elusennau, grwpiau lleol ac unigolion i weithredu a gwnaethpwyd llawer o waith da er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lleol. Pwrpas y ganllaw hon yw cynyddu ymwybyddiaeth o rai o'r planhigion anffroddorol ymledol sy'n flaenoriaeth i ni ac i ddarparu cyngor ynghylch sut gellir lleihau'r problemau maent yn eu creu.

Rydym yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd diwygiedig hwn, ym Mlwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth, fel rhan o'n cyfraniad at gadwraeth bywyd gwyllt ar hyd dyfrffyrdd a dyfroedd croyw Cymru a Lloegr.

**Paul Leinster**  
Prif Weithredwr, Asiantaeth yr Amgylchedd

## Cynnwys

Beth yw chwyn ymledol?	3
Deddfwriaeth gyfredol	4
Cyfrifoldeb dros reoli chwyn ymledol	5
Dulliau cyffredinol o reoli	5
Iechyd a diogelwch	6
Gwaredu chwyn anfrodorol	6
Monitro	7
 Ffeil ffeithiau Llysiau'r dial	8
 Ffeil ffeithiau Efwr enfawr	11
 Ffeil ffeithiau Ffromlys Chwarennog	14
 Ffeil ffeithiau Gwernydd Awstralia	17
 Ffeil ffeithiau Deilen parot	20
 Ffeil ffeithiau Ceiniog y gors arnofiol	22
 Ffeil ffeithiau Briallu Ymgripiol y Dŵr	25
Geirfa	28
Gwybodaeth bellach	29

## Beth yw chwyn ymledol?

Gall nifer o fathau o blanhigion ddyfod yn chwyn ymledol. Maent naill ai'n rhywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn cyflyrau ble'r aflonyddir ar y pridd neu cyfoethogir â maetholion, er anfantais rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid eraill, neu'n blanhigion anfrodorol a gawsant eu cyflwyno i'r wlad hon yn ddamweiniol neu o ganlyniad i fasnach neu eu casglu'n fwiadol. Mae'r olaf o'r rhain yn tueddu i dyfu mewn sefyllfaoedd ble nad yw planhigion brodorol sy'n debyg o ran eu ffurf. Nid yw pob rhywogaeth anfrodorol yn dyfod yn chwyn, ond pan fyddant, maent yn dyfod yn anodd iawn i'w rheoli. Nid yw rhywogaethau o chwyn brodorol, er eu bod yn boendod, yn achosi cymaint o ddifrod ecolegol na ffisegol â'r math anfrodorol. Mae'r llyfryn hwn yn ymdrin â'r rhywogaethau ymledol anfrodorol hynny sydd wedi achosi problemau difrifol yn amgylcheddau dyfrol a thorlannol Prydain.

Mae rhywogaethau anfrodorol ymledol yn dueddol o rannu nodweddion sy'n eu gwneud yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r dull o atgynhyrchu, cyfradd twf, ffurf y tyfiant a dycnwch, ond yn arbennig ag absenoldeb plâu a heintiau a'u gallu canlyniadol i fedru gwrthsefyll cael eu rheoli. Mae rhywogaethau mewn teuluoedd o blanhigion dyfrol yn fwy tebygol o fod yn chwyn ac i ymwthio i mewn i amgylcheddau naturiol na'r rheiny sy'n perthyn i unrhyw deuluoedd eraill o blanhigion. Yn ogystal, mae

natur cynefinoedd dyfrol o waith dyn, yr aflonyddir arnynt yn aml ac sy'n cael eu cyfoethogi'n artiffisial â maetholion yn eu gwneud yn fwy tueddol o gael eu goresgyn. Mae rheoli rhywogaethau ymledol estron angen dealltwriaeth o sut maent yn tyfu a hefyd o ecoleg y systemau dyfrol ble canfyddir nhw.

Mae cyflwyno rhywogaethau o blanhigion i mewn i amgylcheddau newydd yn dwyn risgiau yn ei sgil. Mewn ardaloedd amaethyddol ceir rheolaeth dda o'r perygl o rywogaethau'n dyfod yn chwyn difrifol, ond nid yw chwyn potensial eraill yn cael eu hadnabod na'u gwneud yn destun asesiad risg ar hyn o bryd. Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn newid dosbarthiad rhywogaethau chwyn yn y dyfodol; eisoes, mae nifer o chwyn dyfrol a geir yn Ewrop yn tarddu o ardaloedd isdrofannol y byd. Mae canlyniadau cynhesu byd-eang a ragfynegir, gan gynnwys tymereddau uwch, mwy o ddeuocsid carbon a thywydd mwy stormus, yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd rhywogaethau ymledol ychwanegol yn achosi problemau yn y dyfodol. Mae'r cynnydd anferth yn nosbarthiad y ffromlys chwarennog ers 1962 yn arwydd bod cyflyrau tyfu yn ddelfrydol ar gyfer y rhywogaeth hon. Gall rhywogaethau eraill ymateb yn yr un modd yn y dyfodol os yw newid yn yr hinsawdd yn ffafrio eu gwladychiad a'u tyfiant cyflym. Gall planhigion sy'n tyfu mewn dŵr ac ar lannau afonydd achosi llifogydd os na reolir nhw'n gywir. Mae pob un o'r rhywogaethau a ddisgrifir yn y llyfryn hwn yn creu peryglon llifogydd difrifol.

Mae canlyniadau a chostau rhywogaethau anffroddorol ymledol yn anferth. Amcangyfrifir bod cost flynyddol rhywogaethau anffroddorol ymledol yn Ewrop yn dod i o leiaf 19.1 biliwn Ewro'r flwyddyn. Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyf sut i adnabod saith o rywogaethau sy'n broblem a sut i leihau eu bygythiad i ecosystemau dyfrol.

## Deddfwriaeth gyfredol

Pan fydd rhywogaethau anffroddorol yn dyfod yn ymledol gallant newid ecosystemau'n llwyr, gan achosi amrywiaeth o broblemau gan gynnwys bygwth rhywogaethau broddorol a rhai sydd mewn perygl difrifol. Cydnabyddir y problemau hyn mewn nifer o gytundebau rhyngwladol, Cyfarwyddbau'r Undeb Ewropeaidd a hefyd o fewn deddfwriaeth ddomestig. Mae problemau a achosir gan rai rhywogaethau anffroddorol ymledol yn digwydd dros y byd i gyd, a gosodir rhwymedigaethau i fynd i'r afael â nhw ar y Deyrnas Unedig trwy gytundebau rhanbarthol a byd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys y Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol (CBD), y Cytundeb Rhyngwladol ar Warchod Planhigion (IPPC), Cytundeb Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt Ewropeaidd a Chynefinoedd Naturiol a Chyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r GE. Mabwysiadodd y chweched o'r cynadleddau CBD gyfres o Egwyddorion Arweiniol i Wladwriaethau eu dilyn fel rhan o'u polisiau ar rywogaethau anffroddorol ymledol.

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n darparu'r rheolau cynradd ar ryddhau rhywogaethau anffroddorol i'r gwyllt ym Mhrydain Fawr. Mae'n drosedd o dan adran 14(2) y Ddeddf i 'blannu neu achosi fel arall i dyfu'n wyllt' unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodlen 9, Rhan II. Caiff y saith planhigyn a ddisgrifir o fewn y llyfryn hwn eu cynnwys i gyd yn Atodlen 9 o Ebrill 2010.

Cyflwynwyd darpariaethau gorfodi llymach ar gyfer troseddau bywyd gwyllt o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r rhain yn cynnwys cosbau uwch sydd ar gael i'r llysoedd am droseddau a gyflawnwyd dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Mae Deddf Chwyn 1959 yn darparu ar gyfer rheoli pump o chwyn penodedig. Mae'r rhain yn rhywogaethau nad ydynt yn ddyfrol, er gall llysiâu'r gingroen (*Senecio jacobaea*) dyfu mewn ardaloedd ar lannau afonydd. Cyfeirir y ddeddfwriaeth hon at glirio chwyn sy'n bygwth cynhyrchiant amaethyddol.

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod y problemau y gall rhywogaethau anffroddorol ymledol eu hachosi. Yn 2008 lansiodd y Llywodraeth y 'Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anffroddorol Ymledol ar gyfer Prydain Fawr'. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer dull mwy cyd-drefnus o fynd ati i reoli rhywogaethau ymledol. Ei nod yw creu ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb wedi'i rannu ar draws llywodraeth, sefydliadau allweddol, rheolwyr tir a'r cyhoedd.

### Mae deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i reoli rhywogaethau anffroddorol yn cynnwys:

- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990
- Rheoliadau Gwarchod yr Amgylchedd (Dyletswydd o Ofal) 1991
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Priffyrdd 1980
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991
- Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007
- Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002

Cafodd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddorol ei sefydlu er mwyn goruchwyllo gweithrediad y strategaeth. Mae manylion ynghylch yr ysgrifenyddiaeth ar gael yn [www.nonnativespecies.org](http://www.nonnativespecies.org). Mae'r wefan hon yn darparu defnydd cyfarwyddyd gwerthfawr yn ogystal, fel dalenni adnabod, asesiadau risg rhywogaethau a chynlluniau gweithredu, a manylion grwpiau gweithredu lleol a fedrent fod yn weithredol yn eich ardal chi.

## Cyfrifoldeb dros reoli chwyn ymledol

Mae'r cyfrifoldeb dros ymdrin â chwyn ymledol yn nwylo perchnogion tir unigol. Ar hyn o bryd nid yw rheolaeth strategol, eang yn gyfrifoldeb llwyr

unrhyw sefydliad statudol. Gall Asiantaeth yr Amgylchedd geisio rheoli chwyn ymledol penodol ar dir sydd yn ei pherchnogaeth neu adeiladweithiau amddiffyn rhag llifogydd a gynhelir ganddi.

Gall ymdrechion rheoli gan unigolion helpu i leihau ymlediad rhywogaethau anffroddorol ymledol ac maent yn llwyddo orau os gwneir hyn fel strategaeth cyd-drefnus dalgylch-eang gyda phob parti perthnasol yn cydweithredu. Yn fynych, rhaid ail-wneud gwaith rheoli flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Dulliau cyffredinol o reoli

Ceir pedwar dull sylfaenol o reoli chwyn: mecanyddol, cemegol, naturiol ac amgylcheddol. Mae rheolaeth fecanyddol yn cynnwys trin tir, hofio, tynnu, torri, cribino, carthu neu ddulliau eraill o ddadwreiddio neu dorri chwyn. Mae rheolaeth gemegol yn defnyddio llyswenwynau penodol. Mae rheolaeth naturiol yn defnyddio plâu a heintiau sy'n effeithio ar y chwyn a dargedir i'w wanhau a'i atal rhag dyfod yn niwsans. Mae rheolaeth amgylcheddol yn gweithio trwy newid yr amgylchedd er mwyn ei wneud yn llai addas i chwyn dyfu ynddo, er enghraifft trwy gynyddu neu arafu cyflymder dŵr.

**Yng Nghymru a Lloegr mae defnyddio llyswenwyn mewn neu ger afonydd, camlesi, llynnoedd a sianelau draenio angen cytundeb o flaen llaw oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd. Rhaid i ddefnyddwyr ddilyn y cyfarwyddiadau ar y label.**

## Iechyd a diogelwch

Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio peiriannau neu lyswenwynau. Dylai staff Asiantaeth yr Amgylchedd, contractwyr ac eraill a wneud asesiadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd (COSHH) ar gyfer y gweithgarwch, a dylai eraill fod yn ymwybodol o'r peryglon o weithio ger dŵr. Yn aml, ceir perygl uchel o lithro ar lannau neu wynebau lleidiog eraill wrth gario offer neu gemegolion.

Rhaid i bob gwaith cymysgu a thaenu llyswenwynau gael ei wneud yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a geir ar label y cynnyrch. Rhaid dilyn yr holl ragofalon a argymhellir gan y gwneuthurwr.

Er nad yw'r rhan fwyaf o rywogaethau yn y llyfryn hwn yn wenwynig i bobl, dylech fod yn ofalus dros ben i osgoi cyffwrdd â nodd efwr enfawr, oherwydd gall hyn achosi pothelli difrifol ar y croen.

## Gwaredu chwyn anffordorol

Ystyrir bod defnydd planhigol yn 'wastraff wedi'i reoli' a rhaid iddo gael ei waredu yn unol â, a'r caniatâd amgylcheddol wedi'i roi o dan, Reoliadau Caniatâu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007, oni bai fod un o'r eithriadau a osodir allan yn Atodlen 3 y rheoliadau hyn yn berthnasol, er bod angen i eithriadau gael eu cofrestru'n ogystal gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae gwaredu defnydd planhigol yn gywir fel rhan o reolaeth fecanyddol yn hanfodol. Y peth gorau yw cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd am gyngor ar waredu oherwydd mae Rheoliadau'n bodoli sy'n rhychwantu compostio, llosgi a chladdu defnyddiau planhigol ar y safle a throsglwyddo a gwaredu defnydd i safleoedd tirlenwi wedi'u caniatâu. Rhaid i unrhyw waith llosgi a wneir beidio â chynhyrchu mwg gormodol neu greu niwsans a rhaid ei wneud ar dân poeth sy'n cynnwys coed neu bren glân. Rhaid i blastig a sbwriel arall beidio â chael ei ddefnyddio. Rhaid i deiars a phetrol FYTH â chael eu defnyddio i ddechrau tân. Gall Asiantaeth yr Amgylchedd roi cyngor ar safleoedd gwaredu a dulliau gwaredu addas.

Bydd llyisiau'r dial yn goroesi cael ei gompostio ac oherwydd hyn NID argymhellir y dull hwn o waredu. Rhaid claddu neu losgi llyisiau'r dial yn unig yn unol â chynghor Asiantaeth yr Amgylchedd. Gallai methu â sicrhau eich bod yn gwaredu'n gyfreithlon neu gaffael trwydded neu eithriad addas arwain at gael eich erlyn. Gall claddu ar y safle fod angen trwydded dan Reoliadau Tirlenwi 2002, tra bydd yn rhaid i ddefnydd planhigol gael ei gludo ymaith gan gludwr gwastraff trwyddedig a'i gladdu mewn safle tirlenwi wedi'i drwyddedu. Mae cyngor pellach ar gael oddi wrth y 'Cod arfer llyisiau'r dial - rheoli llyisiau'r dial ar safleoedd datblygu', a gyhoeddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

## Monitro

Bydd cofnodion newydd o'r planhigion yn y llyfryn hwn o gymorth wrth asesu pa mor gyflym maent yn ymledu a phennu dewisiadau rheoli lleol. Os ydych yn gweld unrhyw un o'r rhywogaethau hyn, rhwch wybod, os gwelwch yn dda, i Dr Jonathan Newman, Canolfan Ecoleg a Hydroleg – [jone@ceh.ac.uk](mailto:jone@ceh.ac.uk), neu ffoniwch **01491 692556**. Yr wybodaeth sydd ei hangen yw'r union lleoliad, gyda chyfeirnod grid map os oes modd, maint yr heigiad a'r math o gorff dŵr yr effeithir arno.

## Beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud

### Cofiwch:

- **weithredu ar unwaith;**
- cysylltu â'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg er mwyn cadarnhau'r adnabyddiaeth a lleoliad y planhigion;
- ymofyn am gyngor ar y dull cywir o reoli ar gyfer eich lleoliad penodol chi;
- caffael cytundeb oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd os ydych yn bwriadu defnyddio llyswenwynau;
- tynnu pob sbwriel planhigol o'r dŵr ar ôl gweithrediadau torri;
- ymofyn am gyngor oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch gwaredu defnydd planhigol;
- rhybuddio eich cymdogion am y broblem.

### Peidiwch ag:

- **oedi cyn gwneud rhywbeth;**
- caniatâu i'r planhigion ymledu i gyrff dŵr gerllaw;
- gwaredu defnydd wedi'i dorri yn y corff dŵr agosaf;
- defnyddio rhywogaethau anffordorol ymledol mewn prosiectau adfer cynefinoedd.

## Ffeil ffeithiau

# Llysiâu'r dial



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol



Daethpwyd â llysiâu'r dial i Brydain am y tro cyntaf yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel planhigyn gardd addurnol. Ers hynny mae wedi achosi problemau difrifol mewn ystod o gynefinoedd – yn arbennig min ffyrdd, glannau afonydd a thir diffaith – trwy ddisodli planhigion brodorol ac achosi difrod i adeiladweithiau, hyd yn oed. Ceir tair rhywogaeth o llysiâu'r dial ymledol yn y DU: llysiâu'r dial (*Fallopia japonica*); llysiâu'r dial enfawr (*Fallopia sachalinensis*) a llysiâu'r dial hybrid (*Fallopia x bohemica*), sy'n groes rhwng llysiâu'r dial a llysiâu'r dial enfawr. Llysiâu'r dial yw'r rhywogaeth

fwyaf eang ei rhychwant a thrafferthus ar lannau, gyda llysiâu'r dial hybrid yn dod yn ail agos, sydd â gallu grymus tebyg i ailfywiogi.

Dim ond planhigion benywaidd sy'n bresennol yn y DU. Mae Llysiâu'r dial yn ffurfio clystyrau trwchus gydag egin tew coch/gwyrdd, 2-3m o ran uchder, sydd â choesyntau gwyrdd gwag gyda brychau coch/porffor arnynt. Mae eu dail yn wyrdd, ar ffurf calon neu darian gyda gwaelod gwastad, hyd at 120mm o ran hyd. Carir clystyrau lliw hufen o flodau ar flaenau'r rhan fwyaf o goesynnau ar ddiwedd yr haf. Mae'r system wreiddiau'n cynnwys rhisomau sy'n oren/felyn pan dorrir nhw.

Gall y system o risomau dan y ddaear ymledu o leiaf 7m o'r riant-blanhigyn, a chyrraedd dyfnder o 3m neu fwy. Gall darn o risom yr un faint ag ewin bys bach dyfu'n blanhigyn newydd. Bydd y goron, sy'n eistedd wrth fôn y coesyn, yn cynhyrchu planhigion newydd. Mae'r coesyntau'n gwywo yn y gaeaf ac yn cymryd hyd at dair blynedd i bydru. Ni ddylid cludo llysiâu'r dial o safle heb drwydded gwastraff.

### Rheoli

Dylid torri llysiâu'r dial gydag un toriad glân ger bôn y coesyn. Dylid osgoi dulliau o dorri sy'n cynhyrchu darnau bach, fel ffustio. Gall coesyntau aildyfu o gygnau, neu dameidiau o gygnau. Os sychir coesyntau wedi'u torri nes eu bod yn gras a brown gellir eu llosgi neu eu gwaredu fel gwastraff anweithiol. Os cafodd coesyntau eu tynnu i fyny, bydd ganddynt dameidiau o goron llysiâu'r dial yn dal ynghlwm wrth y bôn. Mae gan hon allu cryf i ailfywiogi a bydd yn aildyfu, hyd yn oed ar ôl i'r coesyn sychu. Osgowch dynnu coesyntau. Edrychwch ar y cod arfer er mwyn gweld sut i'w gwaredu.

Rheolaeth gemegol trwy ddefnyddio fformiwleiddiad bio-weithredol o glyffosad a gymeradwywyd i'w ddefnyddio mewn neu ger dŵr yw'r dull mwyaf effeithiol o drin ger dŵr. Mae *chwistrellu ochr uchaf ac isaf y dail yn gwella rheolaeth*. Yr amser mwyaf effeithiol o roi triniaeth gemegol yw yn Awst-Medi, yn arbennig pan daenir ef ar dyfiant aeddfed heb ei dorri. Mae hyn yn rhoi'r arwynebedd mwyaf i'r chwynladdwr gael ei drawsgludo i lawr i'r rhisom. Gellir defnyddio dull o chwistrelliad i mewn i'r coesyn er mwyn osgoi gwneud difrod i ardaloedd bregus amgylchynol.

Mae'r cod arfer llysiâu'r dial ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Gallwch ofyn am gopiau yn ogystal trwy alw Canolfan Cenedlaethol Cysylltiadau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506. Ysgrifennwyd y cod er mwyn darparu cyngor ynghylch rheoli llysiâu'r dial ar safleoedd datblygu, ond gall llawer o'r cyngor ynghylch rheoli a gwaredu fod yn ddefnyddiol ar gyfer rheolaeth ar lannau afonydd.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Torri

Defnyddiwch ddull pladuro syml o dorri er mwyn atal coesyntau rhag torri'n dameidiau. Ni ddylid torri trwy ffustio neu ddulliau tebyg.

Bydd rhaid torri bob 2-4 wythnos os dyma'r unig ddull o reoli. Neu, gallwch drin aildyfiant gyda llyswenwyn.

Llosgwch y coesyntau a dorwyd ar y safle, neu eu cludo ymaith i safle tirlenwi (mae trwydded yn ofynnol).

### Cloddio

Nid yw hyn braidd fyth yn opsiwn sy'n addas ar gyfer sefyllfaoedd ar lannau afonydd. Os cloddir, edrychwch ar y cod arfer a sicrhau na chaniateir i unrhyw ddefnydd llysiâu'r dial fynd i mewn i'r cwrs dŵr.

### Biolegol

Gall ceffylau, asynnod, defaid a geifr yn pori ar y blagur gadw'r planhigyn dan reolaeth, ar yr amod y ceir gwared ar dyfiant marw blaenorol.

Caiff y prifyn llysiuol *Aphalara itadori* ei ryddhau yn 2010 a dylai leihau egni llysiâu'r dial yn y DU.

## Rheolaeth gemegol

### Glyffosad

Mae glyffosad yn fwy effeithiol pan daenir ef ar gansenni aeddfed yn Awst-Medi. Os yw mynediad neu'r perygl o ddrifftio'n broblem, naill ai torrwrch neu chwistrellwrch y coesyntau'n gynharach yn y tymor er mwyn cyfyngu ar aildyfiant. Ar gyfer fformleiddiadau a gymeradwyir er mwyn trin bonion, gellir defnyddio gwanhad o 1 mewn 10 ar ffurf chwistrelliad i mewn i'r coesyn.

### 2,4-D amin


Mae 2,4-D amin hefyd yn effeithiol yn erbyn llysiâu'r dial a'r amser gorau i'w daenu yw ym Mai.

### Yn gyffredinol

Gall llyswenwynau gael eu taenu trwy ddefnyddio dyfeisiau taenu ar gefn tractor, gwaywffon hir o ysgrepan neu CDA. Mae rheoli'n haws os tynnir coesyntau marw'r gaeaf cyn i'r planhigion ddechrau tyfu. Gofalwch i beidio â gwasgaru coronau llysiâu'r dial pan fyddwch yn clirio cansenni marw. Y dull gorau o daenu mewn ardaloedd sensitif yw trwy chwistrelliad i mewn i'r coesyn neu sychydd chwyn.

## Ffeil ffeithiau

# Efwr enfawr



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol



Mae'r Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzanum*) yn dod o fynyddoedd y Cawcasws a chyflwynwyd ef i Brydain ym 1893 fel planhigyn addurnol. Dihangodd o erddi ac erbyn hyn mae wedi gwladychu llawer o leiniau o dir diffaith a glannau afonydd. Mae pob pen blodyn yn cynhyrchu nifer o filoedd o hadau sy'n hawdd eu gwasgaru gan ddŵr, felly mae'r planhigyn yn ymledu'n gyflym ar hyd cyrsiau dŵr.

Mae'n blanhigyn lluosflynedd, sy'n cymryd hyd at bedair blynedd i aeddfedu a blodeuo, ac ar ôl hynny

mae'n marw. Mae'n ffurfio clystyrau trwchus sy'n atal tyfiant planhigion a gweiriau brodorol, gan adael y glannau'n noeth o lystyfiant yn y gaeaf a chynyddu'r perygl o erydiad ac ailwladychiad hadau a olchir i lawr yr afon.

Mae'n dechrau tyfu ym mis Mawrth a bydd planhigion yn cyrraedd 5m mewn uchder. Mae'r dail yn wyrdd tywyll ac yn ffurfio rhoséd. Mae'r coesyntau'n rhychog gyda smotiau neu frychau coch tywyll neu borffor. Mae'r coesyntau'n wag ac yn mesur hyd at 100mm ar eu traws. Mae'r blodau'n wyn, ac yn ffurfio wmbel mawr. Mae pob planhigyn yn

cynhyrchu hyd at 50,000 o hadau, sydd oddeutu 10mm o hyd gan 7mm o led. Gall hadau barhau i fod yn hyfyw am hyd at 15 mlynedd.

## Rheoli

Dylai'r nod fod i ladd y planhigyn neu ei atal rhag blodeuo. Gall fod angen trin dro ar ôl tro yn ystod y tymor tyfu er mwyn ei atal rhag blodeuo.

Rheolaeth gemegol gan ddefnyddio glyffosad ar 6litr/hectar yw'r dull mwyaf effeithiol. Gallwch ddechrau chwistrellu cyn gynted â bod y planhigyn oddeutu 1m o uchder, fel rheol ym Mawrth a pharhau i wneud hynny gydol yr haf. Mae taenu mwy nag unwaith yn angenrheidiol yn aml a bydd angen chwistrellu eto'n ddiweddarach er mwyn lladd eginblanhigion mewn blynyddoedd dilynol.

Bydd torri'r coesynnau gyda phladur finiog neu gryman cyn i'r planhigyn flodeuo yn help i reoli'r planhigyn hwn. Gellir torri trwy ffustio, ond rhaid bod yn hynod ofalus er mwyn osgoi'r perygl o gael eich chwistrellu â nodd. Nid argymhellir strimio, oni bai y gwisgir siwt gyflawn o ddillad gwarchodol. Mae cloddio'r goron fymryn islaw lefel y ddaear yn atal ailgyfnewid a bydd yn darparu rheolaeth dda. Neu, torrwrch â rhaw ar ongl o 45 gradd er mwyn torri'r prif wreiddyn oddeutu 15 cm islaw lefel y pridd.

## Perygl iechyd

Mae'n hysbys fod plant wedi defnyddio'r coesynnau gwag fel 'saethwyr pys' a 'thelesgopau'. Fodd bynnag, mae'r coesynnau, ymylon ac ochrau isaf y dail yn cario blew bach sy'n cynnwys nodd gwenwynllyd, ac mae'r cyffyrddiad lleiaf yn achosi pothelli poenus ac yn lldio'r croen yn ddifrifol. Mae cynefinoedd heb gysgod gyda lefelau uchel o nitrad yn y pridd (er enghraifft, glannau afonydd, min ffyrdd a thir diffaith) yn dueddol o gynhyrchu cyfeintiau uwch o docsinau yn y planhigyn. Mae cyffwrdd â'r defnydd wedi'i dorri yng ngolau haul yn cynhyrchu adwaith ar y croen bron ym mhob achos. Ceir symptomau pothellu 24-48 awr ar ôl amlygiad, a gellir gweld pigmentiad dwys ar ôl tri i bum diwrnod. Gall hyn barhau am hyd at chwe blynedd neu fwy. Mae defnydd wedi'i dorri'n parhau i fod yn weithredol am nifer o oriau ar ôl ei dorri. Rhaid gwisgo dillad gwarchodol wrth drin y planhigyn hwn oherwydd gall y blew dreiddio drwy ffabrigau ysgafn.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Torri

Torrwrch y gwreiddyn oddeutu 15cm islaw wyneb y ddaear gan ddefnyddio rhaw. Gwisgwch siwt lawn o ddillad gwarchodol, yn arbennig os ydych yn strimio. Torrwrch yn rheolaidd yn gynnar yn y tymor er mwyn atal blodeuo. Dylid ail-dorri'n rheolaidd am rhwng 5 a 10 mlynedd er mwyn llwyr waredu'r planhigyn.

### Cloddio

Bydd cloddio bas i oddeutu 20cm yn tynnu'r goron sy'n tyfu. Dylid gwaredu sbwriel mewn safle tirlenwi neu drwy ei bentyrru ar y safle a'i gompostio. Dylid trin unrhyw ailgyfnewid yn gemegol.

### Biolegol

Gall ceffylau, asynnod, defaid a geifr yn pori gydol y tymor tyfu gadw'r planhigyn dan reolaeth, ond ni fydd yn ei waredu'n llwyr. Gwneir ymchwil bellach i ddulliau rheoli biolegol posibl.

## Rheolaeth gemegol

### Glyffosad

Mewn clystyrau cymysg, defnyddiwch sychydd chwyn pan fo'r planhigion oddeutu 1m o daldra rhwng Mawrth a Mai. Pan fo'r planhigion yn fwy na 1.5m o daldra gwnewch hyn yn hynod ofalus. Gall fod angen triniaeth gemegol dro ar ôl tro am hyd at 10 mlynedd.

Bydd torri'r coesyn uwchben y ddaear, wedi'i ddilyn gan chwistrelliad o wanediad o 1 mewn 10 o glyffosad mewn dŵr islaw'r cwng cyntaf, yn darparu rheolaeth dda. Gellir defnyddio'r dechneg hon ar gyfer planhigion wedi'u sefydlu yn hwyrach yn y tymor.


### Yn gyffredinol

Mae'n hanfodol i sefydlu llystyfiant yn gyflym ar ôl rhoi mesurau rheoli ar waith. Mae glastir trwchus yn tueddu i rwystro hadau rhag blaguro. Dylid rheoli ar sail dalgylch, gan weithio o'r pen i fyny'r afon er mwyn atal hadau rhag ailwladychu.



## Ffeil ffeithiau

# Ffromlys chwarennog



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol



Mae'r ffromlys chwarennog neu ffromlys India (*Impatiens glandulifera*) yn dod o orllewin mynyddoedd yr Himalayas. Wedi'i gyflwyno ym Mhrydain ym 1839, dihangodd o erddi a gwladychu glannau afonydd a lleiniau o dir gwlyb yn gyflym. Hwn yw'r planhigyn unflwydd talaf ym Mhrydain, gan dyfu i uchder o hyd at 3m. Mae'r blodau nodweddiadol pinc-porfforaidd ar ffurf sliper yn ymddangos ym Mehefin. Pan fod y cibynnau hadau'n aeddfedu, maent yn ffrwydro pan gyffyrddir â nhw, gan wasgaru'r hadau hyd at 7m i ffwrdd. Lledir yr hadau hefyd gan ddŵr a gallant barhau i fod yn hyfyw am hyd at ddwy flynedd.

Mae planhigion y ffromlys chwarennog yn tyfu mewn clystyrau trwchus sy'n atal tyfiant gweiriau brodorol a phlanhigion eraill. Yn yr hydref mae'r planhigion yn gwywo, gan adael y glannau'n noeth o lystyfiant ac, oherwydd hyn, yn debygol o erydu.

Mae'r coesynnau'n goch-pincaidd, yn wag a chyda cymalau, gyda rhywfaint o ganghennu'n aml. Mae dail a changhennau ochr yn tyfu o'r cymalau yn y coesynnau. Mae'r coesyn yn llawn nodd ac yn hawdd ei dorri. Mae'r dail gwyrdd tywyll sgleiniog ar ffurf pen gwaywffon, gydag ymylon danheddog, gwythien ganol goch

dywyll a gallant fod hyd at 150mm o hyd. Maent yn tyfu ar y coesyn mewn sidellau o dri. Mae blodau pinc-porfforaidd, wedi'u dal ar goesynnau hir, yn ymddangos o Fehefin i Hydref.

Cynhyrchir yr hadau gwyn, brown neu ddu o Orffennaf i Hydref ac mae ganddynt ddiamedr o 4-7mm. Ceir rhwng 4 a 16 o hadau mewn cibyn.

## Rheoli

Dylai mesurau rheoli fod â'r nod o atal blodeuo a'r amser gorau i'w rhoi ar waith yw cyn Mehefin er mwyn iddynt fod ar eu mwyaf effeithiol.

Gellir rheoli'n gemegol ger dŵr trwy ddefnyddio llyswenwyn sy'n cynnwys glyffosad neu 2,4-D amin. Bydd glyffosad yn lladd gweiriau'n ogystal, ond bydd 2,4-D amin yn lladd chwyn dail llydan yn unig; er mwyn cael eu heffaith orau, defnyddiwch nhw pan fo'r planhigyn yn fach ac yn tyfu'n egniol, yn arbennig yn ystod y gwanwyn.

Bydd torri, strimio neu dynnu ar sail reolaidd am oddeutu tair blynedd yn effeithiol, a gall hyd yn oed waredu'r planhigyn yn llwyr o safleoedd ar eu pen eu hun. Rhaid torri'r planhigion islaw'r cwng isaf er mwyn eu hatal rhag ail-flodeuo.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Torri

Torrwch ar lefel y ddaear gan ddefnyddio pladur, twca, ffust neu strimiwr cyn y cam blodeuo ym Mehefin. Bydd torri cyn hyn yn annog planhigion sy'n aildyfu i gynhyrchu mwy o hadau. Dylid torri'n flynyddol tan na cheir mwy o dyfiant.

### Tynnu

Gall planhigion â gwreiddiau bas gael eu tynnu'n hawdd iawn a'u gwaredu trwy eu llosgi neu eu compostio oni bai fod hadau'n bresennol.

### Biolegol

Mae gwartheg a defaid yn pori'n effeithiol o Ebrill ymlaen gydol y tymor tyfu. Dylid parhau i wneud hyn tan na cheir mwy o dyfiant newydd. Ceir tystiolaeth galonogol ar gyfer y posibilrwydd o reolaeth fiolegol.

## Rheolaeth gemegol

### Glyffosad

Trin gyda sychydd chwyn mewn clystyrau cymysg, neu drwy chwistrelliad deiliant mewn clystyrau trwchus, cyn iddynt flodeuo. Os rheolir pob planhigyn, yna dylai fod angen rhaglenni chwistrellu am ddwy i dair blynedd yn unig.

### 2,4-D amin


Triniwch yn gynnar yn y gwanwyn yn y cam rhoséd am reolaeth effeithiol.

### Yn gyffredinol

Mae'n hanfodol i sefydlu llystyfiant yn gyflym ar ôl rhoi mesurau rheoli ar waith. Mae glastir trwchus yn tueddu i rwystro hadau rhag blaguro. Dylid rheoli ar sail dalgylch, gan weithio o'r pen i fyny'r afon er mwyn atal hadau rhag ailwladychu.

## Ffeil ffeithiau

# Gwernydd Awstralia



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol

Cyflwynwyd gwernydd Awstralia (*Crassula helmsii*) o Dasmania i Brydain ym 1911. Gwerthwyd ef i ddechrau fel 'planhigyn ocsigeneiddio' ym 1927.

Adroddwyd amdano'n tyfu'n wyllt am y tro cyntaf yn Essex ym 1956. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi ymledu'n gyflymach o lawer o ganlyniad i gynnydd yn argaeledd y planhigyn mewn canolfannau garddio a meithrinfeydd dyfrol. Fe'i ceir ar raddfa eang yn awr ledled y DU. Weithiau fe'i gelwir yn *Tillaea recurva*, *Tillaea helmsii* neu chwyn pigmi Seland Newydd.

Mae'r planhigyn yn gwasgaru'n hawdd, ac er na werthir ef bob amser gan gyflenwyr, fe'i ceir yn fynych fel 'halogydd' gyda phlanhigion dŵr eraill. Mae cyflwyniadau i safleoedd eraill yn gysylltiedig ag ystod eang o weithgareddau dynol sy'n ymwneud â dŵr, a gall rhaglenni ymwybyddiaeth ac addysg gwtogi'n drawiadol ar faint o'r planhigyn sy'n cael ei gludo rhwng safleoedd. Cynorthwyr ei ymlediad yn lleol gan hyfywedd uchel dameidiau bach ohono, y gellir eu cario ar laid i safleoedd newydd.

Mae llwyddiant *Crassula'n* deillio'n bennaf o'i allu i wladychu bron i

unrhyw gynefin dŵr croyw addas ansymudol i lif araf ar draws ystod eang o gemeg dŵr. Mae'n tyfu'n egniol gydol y flwyddyn a gall dyfu'r un mor dda naill ai ar dir llaith neu mewn dŵr hyd ar 3m o ddyfnder.

Ble mae *Crassula'n* gwladychu, mae'n trechu llystyfiant brodorol yn gyflym, ac yn cynnal ei oruchafiaeth trwy dyfu'n gyflym a chymryd bron yr holl faetholion sydd ar gael.

Ceir tair ffurf nodweddiadol o dyfiant: (i) y ffurf ddaearol gyda choesynnau ymgripiol a dail awyrol, suddlon; (ii) ffurf allddodol gyda choesynnau mewn clystyrau trwchus, a geir mewn dŵr o ddyfnder llai na 0.6m; (iii) a ffurf danddwr sy'n tyfu o roséd waelodol gyda choesynnau hir gydag ond ychydig o ddail yn cyrraedd yr wyneb. Mae'r tair ffurf yn newid yn unol â'r cyflyrau cyfredol. Mae gan y coesynnau anhyblyg barau o ddail cnodiog sy'n amrywio o ran ffurf o hir a chul mewn dŵr dyfnach i damaid yn eilptigol, gyda blaenau miniog neu bwl yn yr awyr. Nid yw blaen y ddeilen fyth yn fylchog, sy'n ei wahaniaethu o'r brigwlydd y dŵr brodorol (*Callitriche spp.*). Mae bonion y dail wedi'u huno, gan ffurfio coler nodedig o 1mm o amgylch y coesyn. Yn yr haf, bydd blodau gwyn yn tyfu yng ngheseiliau'r dail ar ffurfiau daearol ac allddodol.

## Rheoli

Yr amser gorau i drin y planhigyn yw yng nghamau cynnar ei wladychiad, Bydd oedi'n gwneud y broblem yn waeth o lawer gyda phob blwyddyn sy'n dilyn.

Gellir rheoli tyfiant allddodol trwy ddefnyddio toddiant gwan iawn, cyfaint uchel o lyffosad (5ml/l), wedi'i daenu ar raddfa gerdded o 6 eiliad y medr. Mae hyn yn darparu triniaeth o 6l/ha.

Nid argymhellir torri, ond gall carthu defnydd ymylol ac allddodol fod yn effeithiol, oherwydd mae gan y planhigyn wreiddiau bas. Dylid ffensio'r ardal o amgylch unrhyw wladychiad er mwyn atal da byw rhag symud tameidiau. Dylid pentyrru'r defnydd a garthwyd a'i orchuddio â dalenni polythen du trwchus neu o leiaf 20cm o bridd.

Gall cysgodi ffurfiau allddodol neu ddaearol gyda defnydd afloyw fel polythen du am oddeutu tri mis fod yn effeithiol, ond mae'n anodd ei osod a'i reoli, a gall fandaliaeth fod yn broblem.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Torri

Nid argymhellir hyn.

### Carthu

Gall carthu defnydd ymylol ac allddodol gydol y flwyddyn fod yn effeithiol, er bod angen sicrhau nad ellir cludo tameidiau o blanhigion i fannau eraill.

### Cysgodi

Gorchuddio â pholythen du neu ddefnydd tebyg am hyd at 3 mis yn ystod y tymor tyfu.

## Rheolaeth gemegol

### Glyffosad

Taenu glyffosad ar 6litr/yr hectar ar glystyrau allddodol o Fawrth i Hydref. Mae angen trin yn rheolaidd, a gall fod angen taenu o leiaf ddwywaith bob blwyddyn.

### Tanddwr


Nid oes triniaeth lyswenwyn effeithiol ar gyfer *Crassula* tanddwr. Gwagiwch neu draeniwch y corff dŵr, os gallwch, a'i drin fel tyfiant allddodol.

### Yn gyffredinol

Mae angen trin yn rheolaidd. Gall defnyddio sychyddion chwyn fod yn addas mewn llystyfiant cymysg ymylol. Gall trin clytiau bach bob yn un atal y planhigyn rhag goruchafu'n llwyr. Triniwch yn gynnar ac yn rheolaidd.

## Ffeil ffeithiau

# Deilen parot



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol



Mae'r ddeilen parot (*Myriophyllum aquaticum*) yn dod o dir isel canol De America. Fe'i canfuwyd am y tro cyntaf ym Mhrydain ym 1960 ac erbyn hyn mae wedi ymledu'n eang, yn arbennig yn ne Lloegr. Mae'n tyfu mewn pyllau, cronfeydd, pyllau cerrig mân, nentydd, camlesi a ffosydd, yn arbennig ble ceir dŵr wedi'i ewtroffoeddio. Gall dyfu fel planhigyn daearol pan fod pwll yn sychu, ac fe'i canfuwyd yn tyfu hyd yn oed ar arglawdd sych tip sbwriel yng Nghernyw. Mae'n cynhyrchu blagur allddodol yn ogystal â rhai tanddwr, sy'n rhoi'r olwg bluog nodweddiadol iddo, ac o hynny daw ei enw.

Planhigion benywaidd yn unig sydd wedi ymsefydlu yn y DU ac oherwydd hyn mae'n ymledu trwy ddulliau llystyfol yn unig. Mae'r coesynnau'n hawdd eu torri ac mae'r planhigyn yn atgynhyrchu trwy dyfiant o dameidiau bach o goesyn. Mae'r rhywogaeth yn bert i'w gweld ac fe'i tyfir yn eang mewn pyllau gardd. Nid yw cyflwyniadau i'r gwyllt yn rhai bwriadol gan amlaf, ond gall tameidiau fod ynghudd mewn pridd planhigion potiau eraill a werthir mewn canolfannau gardd a meithrinfeydd dyfrol.

Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd am gyngor gwaredu ar 08708 506 506

## Rheoli

Gallwch gyflawni rheolaeth gemegol trwy daenu glyffosad gyda chymorth Topfilm i dyfiant allddodol. Gall tynnu allan â llaw fod yn ddull effeithiol iawn o reoli.

Gall grwpiau gwirfoddol fynd i'r afael â heigiadau mawr gan ddefnyddio rhacanau a ffyrch. Mae angen gofal nad yw tameidiau'n gwasgaru a dechrau tyfu yn rhywle arall.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Tynnu

Rhaid i ddefnydd gael ei dynnu o'r dŵr cyn gynted ag y bo modd. Rhaid osgoi ei dorri'n dameidiau. Dylid tynnu defnydd mor aml ag sydd ei angen ac o leiaf bob chwech i naw wythnos o Fawrth i Hydref er mwyn gwanhau'r planhigyn.

### Carthu

Bydd carthu ardaloedd bas yn tynnu'r planhigyn hwn o'r dŵr yn effeithiol dros ben. Bydd tynnu'r coesynnau allan â llaw ar ôl gwaith tynnu mecanyddol o gymorth i'w waredu'n llwyr.

### Biolegol

Nid yw'r planhigyn hwn yn flasus i anifeiliaid llysysol; bydd gwartheg a cheffylau'n ei osgoi. Ni welir braidd ddim difrod gan bryfed iddo yn y DU, ond mae ymchwil i gyfryngau rheoli biolegol ar y gweill.

## Rheolaeth gemegol

### Allddodol

Taenwch glyffosad ar 6 litr/hectar i glystyrau allddodol o Fawrth i Hydref. Mae angen trin yn rheolaidd bob blwyddyn, a bydd angen taenu o leiaf ddwywaith bob blwyddyn. Mae'r cymorth Topfilm yn gwella effeithiolrwydd.

### Yn gyffredinol

Mae angen trin yn rheolaidd. Gall sychu chwyn gyda glyffosad fod yn addas mewn llystyfiant mylwl cymysg. Gall trin clytiau bach bob yn un atal y planhigyn rhag goruchafu'n llwyr. Triniwch yn gynnar ac yn rheolaidd.

## Ffeil ffeithiau

# Ceiniog y gors arnofiol



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol



Mae ceiniog y gors arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*) yn dod o Ogledd a De America. Daethpwyd ag ef i Brydain am y tro cyntaf yn yr 1980au fel planhigyn ar gyfer acwaria trofannol a phyllau gardd, ac fe'i gwelwyd yn tyfu'n wyllt am y tro cyntaf yn Essex yn 1981.

Mae ceiniog y gors arnofiol yn tyfu ar ymylon bas cyrff dŵr ewtroffig sy'n llifo'n araf (yn arbennig cwteri, ffosydd sy'n llifo'n araf a llynnoedd), ac mae'n ffurfio matiau trwchus cydblethedig o lystyfiant. Mae'r rhain yn gorchuddio wyneb y dŵr

yn gyflym gan aflonyddu ar ecoleg a dulliau mwynder o ddefnyddio'r corff dŵr. Mae'r matiau hyn yn tyfu hyd at 15m o'r lan mewn un tymor, gyda chyfraddau twf i'r coesynnau o hyd at 20cm y dydd.

Mae ceiniog y gors arnofiol yn gwreiddio'n hawdd o gygnau bob rhyw 40-150mm. Mae'r gwreiddiau'n doreithiog ac yn debyg i flew. Mae'r dail yn allddodol, gan godi ar goesynnau o fonion sy'n tyfu'n llorweddol. Mae'r coesyn a'r petiol yn gnodiog. Mae ffurf yn dail yn ymestyn o grwn i siâp aren; maent

yn glustennog dros ben, ac yn tyfu i hyd at 180mm o led. Delir y dail uwchben wyneb y dŵr tra bod y mat cydblethedig o wreiddiau a choesynnau yn suddo i ddyfnder o hyd at 1.2m yn y dŵr.

Credir eu bod yn atgynhyrchu'n llystyfol ym Mhrydain gan mwyaf, ac mae'r planhigyn yn gallu ffurfio matiau eang o'r tamaid lleiaf o flaguryn. Mae'n bosibl, fodd bynnag, eu bod hefyd wedi cael eu cyflwyno trwy hadau o'u tyfu mewn acwaria mewn tai. Gall ceiniog y gors arnofiol ddyblu ei bwysau mewn cyn lleied â thri diwrnod. Mae'r planhigyn yn arddangos tyfiant sy'n amrywio'n dymhorol ym Mhrydain. Ceir y tyfiant mwyaf ar ddiwedd yr haf pan fydd, yn nodweddiadol, yn ffurfio'r matiau eang o lystyfiant, tra'i fod yn gaeafu ar yr ymylon ac ar y lan fel planhigyn llawer llai a mwy gwastad.

Mae dosbarthiad y planhigyn yn gymharol gyfyng, sef yn bennaf yn ne Lloegr a de Cymru. Mae ei ymddangosiad, mwy na thebyg, o ganlyniad i ddiangfeydd o acwaria a phyllau gardd. Eisoës, profwyd bod ceiniog y gors arnofiol yn anodd ei reoli oherwydd ei gyfraddau twf cyflym, ei allu i ailgyfyngu o un cwgn, a'i allu i wrthsefyll rheolaeth gemegol.

## Rheoli

Gellir ei reoli'n gemegol gyda llyswenwyn sy'n cynnwys glyffosad. Mae defnyddio'r cymhorthion Top Film a Codacide Oil yn gwella effeithiolrwydd glyffosad.

Mae torri a thynnu yn ddull da iawn o reoli, ond ni fydd yn rheoli na lleihau egni'r planhigyn. Dylid gadael y defnydd a dorwyd neu a garhwyd ar y safle ar ben uchaf y lan, yn ddigon pell i ffwrdd o'r dŵr. Mae ei dynnu â llaw gan grwpiau o wirfoddolwyr wedi bod yn ddull llwyddiannus o'i reoli, yn arbennig ar gyfer safleoedd llai o faint.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Torri

Bydd torri'n rheolaidd o Fai i Hydref yn atal y rhywogaeth hon rhag goruchafu'n llwyr. Dylid tynnu'r defnydd a dorrir o'r dŵr ar unwaith. Dylid dilyn torri trwy dynnu â llaw neu drin clytiau bach bob yn un â chemegolion er mwyn lleihau'r perygl o ailgyfiant.

### Tynnu neu garthu

Mae tynnu â llaw'n gweithio'n dda iawn mewn heigiadau bychain ac fel dull o glirio ar ôl gwaith tynnu mawr mecanyddol. Mae'n bosibl ei waredu'n llwyr yn y modd hwn.

### Biolegol

Gwelwyd bod gwartheg yn pori'n gwneud niwed i'r coesynnau allddodol, ond ni chaiff unrhyw effaith hirdymor ar oruchafiaeth y planhigyn. Nid oes unrhyw gyfryngau rheoli biolegol hysbys yn y DU, ond mae ymchwil ar y gweill.

## Rheolaeth gemegol

### Glyffosad


Taenu glyffosad ar raddfa o 6 litr o gynnyrch mewn 400 litr o ddŵr yw'r driniaeth fwyaf effeithiol gyda'r cemegolyn hwn, yn arbennig pan ddefnyddir ef gyda Codacide Oil. Bydd angen trin dro ar ôl tro gydol y tymor tyfu cyn gynted ag y gwelir ailgyfiant.

### Yn gyffredinol

Nid yw'r planhigyn hwn yn pydru'n gyflym iawn ar ôl triniaeth gemegol, a dylid cludo ymaith llystyfiant wedi'i drin mewn ardaloedd perygl llifogydd ar ôl dwy neu dair wythnos os oes modd. Argymhellir triniaeth ddilynol ar glytiau bach ar ôl gwaith tynnu mecanyddol. Mae angen trin yn rheolaidd.

## Ffeil ffeithiau

# Briallu ymgripiol y dŵr



Ffynhonnell: NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad cyfredol



Llun: Alain Dutartre

Gwerthwyd briallu ymgripiol y dŵr yn ddiweddar yn y DU fel planhigyn pwll ac acwariwm. Fe'i gwerthir dan amrywiaeth o enwau, gan gynnwys briallu helyglys a *Jussiaea*. Mae ei ddsbarthiad tacsonomig yr un mor aneglur, ac mae *Ludwiga grandiflora*, *L. hexapetala* a *L. peploides* ymhlith yr enwau a roddwyd arno.

Mae briallu ymgripiol y dŵr yn cynhyrchu blodyn melyn nodedig, oddeutu 3cm ar ei draws, yng Ngorffennaf-Medi. Mae'r coesynnau'n ymestyn ar draws wyneb y dŵr, gan gynhyrchu

dail crwn neu hirgrwn a ellir eu camgymryd am greulys y dŵr brodorol. Mae'r coesynnau hefyd yn ymestyn ar draws llaid, gyda chygnau'n gwreiddio yma ac acw. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r coesynnau cnodiog yn tyfu'n syth i fyny ac mae'r dail yn hwyhau a dyfod yn waywffurf, oddeutu 9cm o hyd. Gall y coesynnau sy'n blodeuo dyfu'n eithaf tal ac edrych fel helyglys.

Mae briallu ymgripiol y dŵr yn ffynnu mewn pyllau, llynnoedd, cyrsiau dŵr, gwlypdiroedd a dolydd gwlyb. Ar hyn o bryd cofnodwyd ei fod yn tyfu'n wyllt mewn 13 o safleoedd.

Mae'r holl wladychiadau hyn naill ai'n cael eu rheoli, neu credir eu bod wedi'u gwaredu'n llwyr. Er ei fod wedi achosi difrod bach iawn hyd yma i'n cynefinoedd ni, gwyddom o'r sefyllfa yn Ffrainc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg fod gan y planhigyn hwn y gallu i achosi difrod difrifol i'n hamgylchedd dŵr. Amcangyfrifodd astudiaeth economaidd y gallai *Ludwiga* gostio dros £150 miliwn y flwyddyn i'r DU pe caniateid iddo ymsefydlu.

Tra'i bod yn annhebygol y gwelwch friallu ymgripiol y dŵr yn tyfu'n wyllt, mae'n bwysig dros ben y rhoddir gwybod am unrhyw safleoedd ble'i canfyddir ar unwaith er mwyn i waith rheoli fedru cael ei wneud. Mae'n hysbys fod y planhigyn hwn yn tyfu'n eang mewn gerddi addurnol, ac oherwydd hyn yn debygol o ymddangos yn tyfu'n wyllt os yw'n dianc o byllau neu os caiff ei waredu mewn modd anaddas.

## Rheoli

Gellir cyflawni rheolaeth gemegol gyda fformweiddiadau o glyffosad a gymeradwyir eu defnyddio mewn neu ger dŵr. Mae hwn yn fwy effeithiol o lawer os cymysgir ef â chymorth addas, fel Topfilm ar 1l/ha.

Gall ei dynnu'n ofalus â llaw fod yn ddull effeithiol iawn o'i reoli. Dyma'r dull dewisol o'i reoli yn Ffrainc ble na chaniateir triniaeth gemegol. Os yw *Ludwiga* wedi ymsefydlu'n dda gellir ei dynnu'n fecanyddol i ddechrau er mwyn lleihau'r biomas. Dylai defnydd a garthwyd neu a dynnwyd gael ei gompostio ar safleoedd i ffwrdd o gyrff dŵr neu ardaloedd gwlypdir.

Mae dulliau llaw, mecanyddol neu lyswenwyn o drin yn debygol o fod angen dwy flynedd o reolaeth. Bydd angen i'r safle gael ei arolygu ar gyfer unrhyw dyfiant gweddilliol am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r tyfiant olaf gael ei drin. Dylid bod yn ofalus i beidio â lledaenu'r planhigyn trwy ei dameidio wrth ddefnyddio'r dulliau hyn.

## Rheolaeth nad yw'n gemegol

### Tynnu

Mae tynnu â llaw'n gweithio'n dda, yn arbennig gyda heigiadau bach ac fel dull o glirio ar ôl rheolaeth gemegol neu fecanyddol. Rhaid i ddefnydd gael ei gompostio i ffwrdd o gyrff dŵr.

### Carthu

Mae ei dynnu'n fecanyddol yn effeithiol. Rhaid i dameidiau gael eu dal a'u cludo ymaith er mwyn osgoi ymlediad pellach. Rhaid i ddefnydd gael ei gompostio i ffwrdd o gyrff dŵr.

## Rheolaeth gemegol

### Glyffosad

Taenwch glyffosad ar 6 litr o gynnyrch/ha. Mae ychwanegu'r cymorth Topfilm ar 1l/ha yn gwella sut mae'r glyffosad yn glynu wrth a chael ei dderbyn drwy'r dail cwyraidd.

Mae angen trin dro ar ôl tro, ac mae angen monitro'r safle am rhwng dwy a thair blynedd.

## Geirfa

**2,4-D Amin** – llyswenwyn detholus trawsleoedig.

**Cymorth** – ychwanegyn llyswenwyn a ddefnyddir er mwyn cynyddu faint o'r llyswenwyn gaiff ei amsugno trwy ddail cwyradd planhigion dŵr.

**Cesail** – yr ongl ble mae'r ddeilen yn cysylltu â'r coesyn.

**Biomass** – faint o ddefnydd planhigol a gynhyrchir wrth dyfu.

**Cyffyrddiad** – llyswenwyn sy'n lladd y rhannau o blanhigion y mae'n cyffwrdd â nhw, er enghraifft dail.

**COSHH** – Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd.

**Ewtroffig** – dŵr sydd â gormod o faetholion planhigion.

**Glyffosad** – llyswenwyn trawsleoedig nad yw'n ddetholus.

**Hybrid** – epil rhywogaethau sy'n perthyn yn agos i'w gilydd sy'n yn aml yn fwy egniol na'r ddau riant.

**Cwgn** – man lle mae'r dail yn cysylltu â'r coesyn a chwydd ar risomau o ble daw gwreiddiau a blagur.

**Petiol** – coesyn deilen.

**Torlannol** – yr ardal wrth ymyl cyrsiau dŵr.

**Detholus** – gair a ddefnyddir ar gyfer llyswenwyn sy'n lladd un math o blanhigion yn unig, er enghraifft gweiriau'n unig neu chwyn dail llydan yn unig.

**Suddlon** – cnodiog neu wedi chwyddo.

**Trawsleoedig** – caiff ei amsugno a'i ddsbarthu ledled y planhigion i'r gwreiddiau a'r blagur.

**Sidell** – set o ddail mewn cylch sy'n codi ar yr un lefel ar goesyn.

## Gwybodaeth bellach

Ceir llawer o ffynonellau o wybodaeth ynghylch planhigion ymledol a dulliau o'u rheoli. Mae'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) yn darparu cyngor ar sut i reoli rhywogaethau ymledol dyfrol a thorlannol.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi gwybodaeth amhrisiadwy ynghylch rheoli llysiâu'r dial;

**Asiantaeth yr Amgylchedd 2006 Y cod arfer llysiâu'r dial – Rheoli llysiâu'r dial ar safleoedd datblygu.**

Mae'r gwefannau canlynol yn ffynonellau defnyddiol iawn ar gyfer rhywogaethau ymledol anffrodorol yn gyffredinol.

Ysgrifenyddiaeth rhywogaethau anffrodorol Prydain Fawr:

**[www.nonnativespecies.org](http://www.nonnativespecies.org)**

Canolfan Ecoleg a Hydroleg:

**[www.ceh.ac.uk/sci\\_programmes/AquaticPlantManagement.html](http://www.ceh.ac.uk/sci_programmes/AquaticPlantManagement.html)**

CABI: **[www.cabi.org](http://www.cabi.org)**

Y Rhaglen Fyd-eang Rhywogaethau Ymledol: **[www.gisp.org](http://www.gisp.org)**

Rhwydwaith Genedlaethol Fioamrywiaeth (NBN) **[www.nbn.org.uk](http://www.nbn.org.uk)**

Undeb Cadwraeth y Byd: **[www.iucn.org](http://www.iucn.org)**

Plantlife: **[www.plantlife.org.uk](http://www.plantlife.org.uk)**

Cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegolion **[www.pesticides.gov.uk](http://www.pesticides.gov.uk)**

Mae'r ymgyrch 'Doeth gyda Phlanhigion' yn darparu cyngor i arddwyr ar adnabod planhigion pwll ymledol, cyfarwyddyd ynghylch sut i waredu planhigion pwll a gwybodaeth ynghylch yr effeithiau gallant eu cael yn yr amgylchedd. Mae posteri a thaflen ar gael oddi wrth

**<http://beplantwise.direct.gov.uk/index.html>**





Would you like to find out more about us,  
or about your environment?

Then call us on

08708 506 506\* (Mon-Fri 8-6)

email

[enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)

or visit our website

[www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk)

incident hotline 0800 80 70 60 (24hrs)

floodline 0845 988 1188

\* Approximate call costs: 8p plus 6p per minute (standard landline).  
Please note charges will vary across telephone providers.



